

CYNGOR TREF FRENHINOL CAERNARFON

COFNODION CYFARFOD Y CYNGOR LLAWN, 1af o RAGFYR 2020 - CYFARFOD RHITHIOL

Yn bresennol: Ei Deilyngdod Y Maer – Cynghorydd W.Tudor Owen
(Cadeirydd)

Y Cynghorwyr A.Hopcyn, D.L.Jones, C.Larsen, E.Lovgreen, J.W.Parry,
S.Sage, M.Sarnacki, I.C.Thomas, R.Thomas

1. Ymddiheuriadau

Y Cynghorwyr W.L.Davies, K.Jones, B.Owen, W.R.Owen, K.Richards,
C.Williams

2. Cyhoeddiadau'r Maer

04.11.2020	Recordio Gwasanaeth Rhithiol Sul y Cofio
25.11.2020	Rhoi goleuadau'r Goeden Nadolig ar y Maes ymlaen efo Brianna
27.11.2020	Cyflwyno Plac i'r Parchedig Roger Donaldson

3. Datgan Buddiant Personol

Dim.

4. Eitemau Brys (Cadeirydd / Clerc)

Grwpiau mawr o bobl ifanc yng nghanol y dref

Nodwyd fod y Clerc wedi derbyn e-bost yn datgan bod grwpiau mawr o bobl ifanc yn dychryn pobl a busnesau yng nghanol y dref, ac nad oedd presenoldeb gan yr Heddlu. Roedd tystiolaeth eu bod yn dinistrio arwyddion pellhau cymdeithasol Cyngor Gwynedd. Roedd hyn yn cael effaith negyddol ar fusnesau.

Nodwyd yn ogystal bod problem o ran ymddygiad anghymdeithasol ar rai o'r stadau tai, a bob cyfarfodydd yn cael eu cynnal yn y gorffennol rhwng y Maer a'r Heddlu.

Nododd y Clerc ei fod am ysgrifennu at Heddlu Gogledd Cymru i ofyn am batrolau ychwanegol.

Nodwyd yn ogystal y dylid trefnu cyfarfod rhwng y Maer / Dirprwy Faer a'r Heddlu i drafod y broblem.

5. Cofnodion

I gadarnhau'r cofnodion canlynol:

i. Cyngor Llawn – 3ydd o Dachwedd 2020

Penderfynwyd derbyn fel rhai cywir.

ii. Pwyllgor Adloniant – 10fed o Dachwedd 2020

Penderfynwyd derbyn fel rhai cywir.

iii. Pwyllgor Cyllid – 19eg o Dachwedd 2020

Cynigiwyd eitem 4 – Eitemau Brys – Cymdeithas Rhieni ac Athrawon Ysgol Y Gelli, gan y Cynghorydd C.Larsen gan fod y Cynghorydd I.C.Thomas (oedd yn y Gadair yn ystod y cyfarfod) yn Datgan Diddordeb.

Penderfynwyd:

(1) Derbyn fel rhai cywir.

(2) Derbyn yr Amcangyfrifon (oedd fel Atodiad i'r cofnodion) fel y Gyllideb ar gyfer 2021/22.

6. Cyfrifon

Penderfynwyd derbyn a'u talu, ar wahân i'r taliad o £509 i GoodElf am y Goeden Nadolig, nad oedd yn cael ei harchebu mwyach.

7. Cysoni Cyfrifon

Penderfynwyd:

(1) Derbyn er gwybodaeth.

(2) Diwygio'r llinell Gŵyl Fwyd i ddarllen Porthi Pawb y tro hwn gan mai i Porthi Pawb oedd y taliad yn mynd.

(3) Ysgrifennu i ffwrdd unrhyw sicciau neu BACS nad oedd wedi cael eu talu mewn cyfnod o flwyddyn.

8. Nadolig

Cyflwynwyd adroddiad llafar y Clerc ar drefniadau'r Nadolig.

Manylodd ar y trefniadau o ran y cystadlaethau poster. Yn ogystal nododd bod 101 o garolau Cymreig sy'n para dros 5 awr ar gael ar gyfer y "speaker", ond y byddai angen trefnu trwydded PRS gan y Performing Rights Society Yn ogystal byddai'n syniad gofyn i Owain Llŷr recordio neges gan y Maer eleni a'r roi ar Facebook.

Penderfynwyd:

- (1) Trefnu trwydded PRS gan y Performing Rights Society.
- (2) Gofyn i Owain Llŷr recordio neges gan y Maer eleni a'r roi ar Facebook.

9. Adeilad yr Institiwt

Cyflwynwyd adroddiad y Clerc ar Adeilad yr Institiwt.

Nodwyd:

(I) Tu allan i Adeilad yr Institiwt

- (1) Bod "downpipe" trwm yn edrych yn fregus iawn ac yn rhydd ar du blaen yr Adeilad, ond mae o reit uchel i fyny.
- (2) Er mwyn ei atgyweirio rhag ofn iddo ddisgyn, roedd y Clerc wedi cysylltu gyda cwmni gosod sgaffaldau / atgyweirio a bod y cwmni hwnnw am ddod yn ôl at y Clerc o ran y pris a'r trefniadau o ran cael permit.
- (3) Gan y byddai'n rhaid gosod sgaffold beth bynnag, y dylid edrych os oedd angen gwneud unrhyw waith atgyweirio ar y "downpipe" o'r top i'r gwaelod, ynghyd â gwneud unrhyw waith atgyweirio angenrheidiol arall ar yr un pryd

Penderfynwyd gofyn i'r Clerc symud ymlaen i drefnu'r gwaith ar sail y pris roedd eisoes wedi ei dderbyn (unfrydol).

(II) Liff

- (1) Bod gan y Cyngor gytundeb gyda KONE tan Awst 2021 i wasanaethu'r lifft ond roedd gwasanaeth y cwmni wedi bod yn siomedig iawn; nid oedd y lifft wedi bod yn gweithio, ac nid ydynt yn ateb ymholiadau.
- (2) Y derbyniwyd manylion Knowsley Lift Services sy'n gwneud y gwaith ar lifftiau i Gyngor Gwynedd ac fel man cychwyn gofynnwyd am ganiatâd y Pwyllgor Cyllid i'w defnyddio nhw i atgyweirio'r lifft. Awgrymodd y Pwyllgor Cyllid ein bod yn trwsio'r lifft mor fuan a phosib gyda chymorth Knowsley Lift Services a gofyn am farn gyfreithiol o ran os oedd posib dod allan o'r contract efo KONE. Disgwylir am ymateb y Cyfreithiwr o ran dod allan o'r contract.
- (3) Yn y cyfamser, roedd y lifft wedi dechrau gweithio gan fod BT wedi cael ei alw allan i atgyweirio llinell ffôn y lifft. Fodd bynnag bu iddo dorri i lawr eto ar y 18fed o Dachwedd. O dan yr amgylchiadau bu rhaid cysylltu gyda KONE er mwyn iddynt ddod i'r Institiwt ac atgyweirio'r lifft dros dro.
- (4) Y tro hwn bu iddynt ddod draw ar y diwrnod canlynol, a sicrhau fod y lifft yn gweithio am y tro o leiaf.
- (5) Er mwyn sicrhau fod y lifft yn parhau i weithio yn yr hir-dymor, derbyniwyd pris ganddynt ar gyfer y canlynol; "Attend site, rectify distorted shaft paneling" - £1,040 & TAW.

Penderfynwyd gofyn i'r Clerc symud ymlaen i drefnu'r gwaith ar sail y pris roedd eisoes wedi ei dderbyn, sef "Attend site, rectify distorted shaft paneling" - £1,040 & TAW (unfrydol).

(III) Archwiliad Trydanol

Y gobaith yw y bydd y gwaith yn deillio o'r Archwiliad yn cychwyn ar yr 2il o Ragfyr.

(IV) Asesiad Risg Tân

- (1) Bod Asesiad Risg Tân wedi ei gyflawni ar Adeilad yr Institiwt, a bod rhai o'r materion symlach bellach wedi eu cyflawni, er enghraifft gwneud arwyddion. Roedd angen yn awr edrych ar y materion mwy cymhleth oedd wedi eu habnabod yn yr asesiad risg, er enghraifft drysau tân, ac roedd angen cael arbenigwyr i mewn i wneud y gwaith.
- (2) Gan fod nifer o faterion amrywiol a chymhleth yn ymwneud ag Adeilad yr Institiwt, y byddai'n syniad ymgynnull y Grŵp bach i edrych ar y rhain er mwyn llunio rhaglen dros rhai blynyddoedd a blaenoriaethu gwaith (penderfyniad blaenorol y Cyngor oedd y dylai'r grŵp i lunio rhaglen ar gyfer gwaith ar yr adeilad gynnwys y Maer, Cadeirydd y Pwyllgor Gwaith, y Clerc a'r Dirprwy Glerc, ac y dylai'r grŵp adrodd i'r Pwyllgor Gwaith).

Penderfynwyd ymgynnull y Grŵp bach i edrych ar y rhain er mwyn llunio rhaglen dros rhai blynyddoedd a blaenoriaethu gwaith (penderfyniad blaenorol y Cyngor oedd y dylai'r grŵp i lunio rhaglen ar gyfer gwaith ar yr adeilad gynnwys y Maer, Cadeirydd y Pwyllgor Gwaith, y Clerc a'r Dirprwy Glerc, ac y dylai'r grŵp adrodd i'r Pwyllgor Gwaith).

(V) Bwyler Adeilad yr Institiwt

Nododd y Clerc y trefnwyd i gwmni AER wneud gwiriadau diogelwch blynyddol ar fwyler Adeilad yr Institiwt ar gost blynyddol o £155 + TAW.

(VI) Galwch Acw

• **Larwm Lladron**

Bod y larwm lladron bellach wedi ei osod yn y siop a rydym wedi talu amdano. Mae Galwch Acw wedi cytuno i gyfrannu. Ein bwriad yw cyfrifo a rhannu'r costau unwaith fydd pob bil wedi ei dalu.

• **Joists**

Rydym wedi derbyn pris o £1675+TAW i drwsio joists y siop gan Kimberley Gulf. Rydym yn aros am ddyddiad cychwyn y gwaith.

- **Gwres / Drws Ffrynt**

- (1) Yn y cyfarfod diwethaf o'r Cyngor penderfynwyd gofyn i mi wirio'r brydles cyn gwneud ymholiadau pellach o ran y gwres a'r drws ffrynt.
- (2) Yn fy marn i nid oes gofyn i ni dalu am y gwres nac ychwaith y drws. Petai'r Cyngor yn penderfynu gwneud hyn, yna gwneud achos ei fod yn credu ei fod o fudd i'r Cyngor byddan ni, ac mi fyddai unrhyw budd i'r tenant yn "incedental".
- (3) Mai'r unig orfodaeth sydd arnom ydi i yswirio'r adeilad (pwynt 10.1 yn y brydles) a strwythur yr adeilad (pwynt 11.1 yn y brydles). Petai Galwch Acw'n dewis gwneud y gwaith eu hunain byddai rhaid iddynt gael caniatad ysgrifenedig gen y Cyngor Tref (pwynt 5.8 yn y brydles) ond nid oes gennym hawl i wrthod hynny heb rheswm teilwng.

Yn sgîl yr wybodaeth uchod, penderfynwyd na ddylid cyfrannu tuag at y gwres na'r drws ffrynt (unfrydol).

10. Adroddiad Grŵp Gwefan y Cyngor

Cyflwynwyd adroddiad y Clerc yn rhoi opsiynau ar gyfer gwefan newydd i'r Cyngor. Roedd Grŵp Gwefan y Cyngor wedi cwblhau eu gwaith o greu gweledigaeth i wefan newydd y Cyngor, ac yn argymhell y canlynol:

- (1) Mai cyflawni'r gofynion statudol sydd ar y Cyngor i gyhoeddi dogfennau a rhannu gwybodaeth am waith y Cyngor yw prif pwrpas y gwefan ac felly rhoddir blaenoriaeth i'r pethau yma yn y cynllun. Yn ychwanegol gellid cynnig dolen at wefannau priodol sydd yn fwy abl i roi sylw teilwng i rinweddau Caernarfon, er enghraifft CADW, a chlybiau a chymdeithasau'r dref.
- (2) Bod map o'r dewislen a awgrymir wedi ei greu.
- (3) Er mwyn sicrhau priodole i'r iaith Gymraeg penderfynwyd y byddai'r gwefan yn llwytho yn Gymraeg bob tro y daw rhywun ati am y tro cyntaf, gydag opsiwn iaith yn y top, ar yr ochr dde. Byddai hyn yn golygu fod y Saesneg yn un clic ychwanegol na'r Gymraeg.
- (4) Bydd y gwefan yn gweithio'n ddwyieithog "cefn wrth gefn", hynny yw fydd clicio newid iaith yn mynd a chi i'r un dudalen yn yr iaith arall.
- (5) Bod y grŵp yn hoff iawn o olwg gwefan Cyngor Tref Caerffili, gan gynnwys y dolenni ar waelod ffrâm pob tudalen oedd yn hybu cydweithio rhwng y Cyngor Tref a'r Cyngor Sir.
- (6) Y teimlad oedd bod gormod o luniau a gormod a phethau'n symyd ar y wefan bresennol.
- (7) Er mwyn cadw'r wefan newydd yn syml argymhellir defnyddio dim ond tri llun.
 - Llun o'r Castell;
 - Llun o bwrlwm yn y dref, byddai'r Gwyl Fwyd yn enghraifft dda;
 - Llun o'r dref o'r awyr.

Penderfynwyd (unfrydol):

- (1) **Gofyn am 3 pris am wefan newydd.**

- (2) **Bod gwasanaeth Cymraeg a lleoliad yn agos i Gaernarfon yn ystyriaethau wrth ddewis cwmni.**
- (3) **Bod y briff i'r cwmnïau yn cynnwys yr adroddiad yma, a'r holl ddogfennau atodol.**

11. Arolwg Unllais Cymru – Gweithio o Bell

Cyflwynwyd Arolwg Unllais Cymru – Gweithio o Bell 2020.

Penderfynwyd nodi cynnwys yr Arolwg (unfrydol).

12. Cae 3G

Nodwyd bod cynllun ar waith i gael cae 3G llawn faint yn lle y cae ½ maint sydd ar dir Ysgol Syr Hugh Owen, a bod Cyngor Gwynedd yn y broses o gyflwyno ceisiadau grant ar gyfer y cynllun. Gofynnir i'r Cyngor Tref ysgrifennu llythyr o gefnogaeth ar gyfer hyn.

Penderfynwyd gofyn i'r Clerc ysgrifennu llythyr o gefnogaeth y Cyngor Tref ar gyfer y cynllun i gael cae 3G llawn faint yn lle y cae ½ maint sydd ar dir Ysgol Syr Hugh Owen (unfrydol).

13. Calendr

Cyflwynwyd calendr drafft i'r Cyngor hyd at ddiwedd Mai 2021.

Nodwyd:

- (1) Y bydd calendr pellach yn cael ei greu ar gyfer y cyfnod Mehefin 2021 – Mai 2022, a bydd hyn yn gyson efo awdurdodau fel Cyngor Gwynedd.
- (2) O ran trefniadau ar gyfer y Nadolig eleni, mai'r bwriad oedd cau'r swyddfa ar y 23ain o Ragfyr, ac ail-agor ar y 4ydd o Ionawr 2021.

Penderfynwyd derbyn y calendr ar gyfer Ionawr – Mai 2021 (unfrydol).

14. Rheoliadau Cynllunio Gwlad & Thref Cynllun Datblygu Strategol Cymru 2021 a Rheoliadau i sefydlu Cyd Bwyllgorau Corfforaethol

Cyflwynwyd e-bost gan Unllais Cymru o ran yr uchod. Oherwydd yr amserlen dynn, cytunodd y Cadeirydd i'r Clerc gysylltu yn ôl i ddatgan fod y Cyngor Tref eisiau bod yn rhan o'r seminar.

Penderfynwyd nodi'r uchod (unfrydol).

15. Cronfa Nadolig y Maer

Nodwyd mai'r bwriad oedd cyfrannu at sefydliadau lleol allan o Gronfa'r Maer, yn unol â'r trefniadau arferol, a bod croeso i unrhyw un o'r Cyngorwyr gyfrannu.

Penderfynwyd nodi'r uchod (unfrydol).

16. Clwb Ieuenctid Caernarfon

Cyflwynwyd adroddiad llafar y Clerc ar y datblygiadau o ran Clwb Ieuenctid Caernarfon.

Nododd y Clerc ei fod wedi derbyn gwybodaeth gan y Gwasanaeth Ieuenctid fod y presenoldeb wedi bod yn isel yn y Clwb yng Nghaernarfon, a bod problem gyffelyb wedi bod mewn rhai clybiau eraill. Roedd gwahanol bethau wedi cael eu treialu, a'r gobaith yw y bydd y sefyllfa'n gwella pan fydd y swyddog sy'n gweithio efo ysgolion yn gallu ymweld ag Ysgol Syr Hugh Owen. Bydd y sefyllfa'n cael ei adolygu yn y flwyddyn newydd.

Penderfynwyd nodi'r uchod (unfrydol).

17. Defibs

Gofynnwyd am farn y Cyngor ar y ddarpariaeth o Defibs yng Nghaernarfon a cafwyd trafodaeth ar hyn.

Nodwyd ei bod yn bwysig cael yr wybodaeth o ran y defnydd o Defibs mewn siopau.

Penderfynwyd gofyn i'r Dirprwy Clerc (unfrydol):

(1)Wneud map o'r ddarpariaeth Defibs yng Nghaernarfon a rhoi arwyddion i fyny o ran eu lleoliadau.

(2)Edrych i mewn o'r defnydd o Defibs

18. Ymgynghoriadau

Cyflwynwyd gwybodaeth am yr ymgynghoriadau canlynol:

- (a) Canllawiau Statudol drafft – Perfformiad a llywodraethiant prif gynghorau (dyddiad cau 3ydd o Chwefror 2021).
- (b) Nodi bod y Rheoliadau Gwastraff (Cymru)(Diwygiadau Amrywiol) 2020 wedi dod i rym ar y 19eg o Dachwedd.
- (c) Lansio Cyfnod Ymgysylltu Anffurfiol ar Addysg Ôl-16 yn Arfon (dyddiad cau 22ain o Ragfyr 2020).
- (ch) Diweddariad Llifogydd a TAN 15 (dyddiad cau 8fed o Ionawr 2021).

Gofynnodd y Clerc i'r aelodau, os oedd ganddynt unrhyw sylwadau ar yr uchod, i'w basio'n uniongyrchol ato fo.

Penderfynwyd nodi'r uchod (unfrydol).

19. Partneriaeth Glannau Caernarfon

Gan fod Cyngor Gwynedd yn tynnu'n ôl o gyd-gordio'r grŵp, ystyriwyd fod y Cyngor Tref yn cymryd y rôl o gyd-gordio'r grŵp drosodd.

Penderfynwyd, gan fod Cyngor Gwynedd yn tynnu'n ôl o gyd-gordio'r grŵp, cytuno fod y Cyngor Tref yn cymryd y rôl o gyd-gordio'r grŵp drosodd, ond gan ddatgan y dylai swyddogion Cyngor Gwynedd ddal i bresenoli eu hunain yn y grŵp (unfrydol).

20. Rhybuddion o Gynnig

Cyflwynwyd y Rhybuddion o Gynnig canlynol:

(a) Y Cynghorydd Maria Sarnacki

“Mae'r pafin a'r wal sy'n ei gario ar hyd Aber Foreshore wedi difrodi ers dros flwyddyn bellach, mae'n golygu bod rhaid i bobl gerdded ar y lôn ac mae ceir yn gyrru heibio yn gyflym iawn, dwi'n credu fod hyn yn creu perygl yn ogystal â bod yn hyll.

A fedrith y Clerc ysgrifennu llythyr swyddogol gan y Cyngor yma at Cyngor Gwynedd yn gofyn am drwsio'r pafin a'r wal ar frys ac hefyd yn gofyn iddynt ystyried lleihau'r uchafswm cyflymder ar y stretch yma. Efallai gallwn gynnig mai 40mya fyddai'r cyflymder priodol.”

Penderfynwyd y dylid diwygio rhywfaint ar y Rhybudd o Gynnig, a phenderfynu fel a ganlyn (unfrydol):

(1)Bod y Clerc yn ysgrifennu llythyr swyddogol gan y Cyngor yma at Cyngor Gwynedd yn gofyn am drwsio'r pafin a'r wal ar frys ac hefyd yn gofyn iddynt ystyried lleihau'r uchafswm cyflymder ar y darn yma i 20mya.”

(2)Dylid hefyd gofyn i'r Cyngor os oes ganddynt gynlluniau tymor hir i gael grant i wella'r holl ardal.

(b) Y Cynghorydd Jason Parry

“Yr wyf wedi derbyn degau o gwynion am y sefyllfa tân gwyllt Blwyddyn yma! Mae'r sefyllfa yn waeth y flwyddyn hon nag unrhyw amser yn y gorffennol. Mae tân gwyllt wedi parhau o tua Hydref 25 nes 11 Tachwedd!

Dwi'n gwybod na allwn ni fel Cyngor Tref wneud dim byd yn uniongyrchol am y broblem, ond oes posib gofyn i'r Cyngor ysgrifennu at Lywodraeth Cymru i edrych ar greu deddfwriaeth, sydd yn cyfyngu defnydd y tân gwyllt i'r 5ed o Dachwedd yn unig!

Dylid hefyd ofyn i'r Cyngor Tref i ysgrifennu at Sian Gwenllian a Hywel Williams hefyd.”

Penderfynwyd, gan fod tân gwyllt yn cael eu defnyddio ar wahanol ddyddiadau, a gan wahanol ddiwylliannau, y dylid diwygio rhywfaint ar y Rhybudd o Gynnig, a phenderfynu fel a ganlyn (unfrydol):

(1)Gofyn i'r Cyngor ysgrifennu at Lywodraeth Cymru i edrych ar greu deddfwriaeth, sydd yn cyfyngu defnydd y tân gwyllt i ddyddiadau penodol.

(2) Dylid ofyn i'r Cyngor Tref i ysgrifennu at Sian Gwenllian a Hywel Williams hefyd.

21. Cwestiynau

(1)Damwain

Nododd y Cynghorydd D.L.Jones bod damwain wedi bod yn gynt yn y dydd lle roedd plentyn wedi cael ei anafu mewn gwrthdrawiad efo bws, ond nid oedd manylion pellach ganddi.

(2)Deintydd

Nododd y Cynghorydd S.Sage, gan fod y Deintydd yn cau yn Cibyn, roedd pobl yn cael cynnig Deintydd ym Mangor neu ym Mhenrhyndeudraeth yn ei le. Gofynnodd os oedd modd cysylltu gyda Sian Gwenllian, AC.

Nododd y Cynghorydd R.Thomas bod Sian Gwenllian eisoes yn dilyn y mater i fyny.

Gorffennodd y cyfarfod am 7.20 p.m.

Arwyddwyd

Dyddiad